GIG CYMRU NHS WALES
Perfformiad a Gwella
Performance and Improvement

Rhaglen Cymorth Diogelwch Mamolaeth a Newyddenedigol



Adroddiad ar gyfer y cyfnod Rhagfyr 2022 - Mawrth 2025

Sut dechreuodd y rhaglen

IYn 2022, yn dilyn llawer o adolygiadau i Wasanaethau Mamolaeth ledled y DU, gofynnodd Llywodraeth Cymru i Gwelliant Cymru edrych ar Wasanaethau Mamolaeth a Newyddenedigol yng Nghymru yn gyffredinol, i ddarganfod beth oedd yn gweithio'n dda a beth oedd angen ei wella.

Ymgymerwyd â'r gwaith hwn gan Hyrwyddwyr Diogelwch Mamolaeth a Newyddenedigol ym mhob Bwrdd Iechyd ar gyfer y gymuned Mamolaeth a Newyddenedigol yng Nghymru. Yn ystod y cyfnod darganfod hwn, aeth y tîm ati i ddarganfod beth oedd yn digwydd mewn Gwasanaethau Mamolaeth a Newyddenedigol ledled Cymru. Cynhyrchodd y tîm adroddiad, (Adroddiad Darganfod Gwella Gyda'n Gilydd Dros Cymru), a oedd yn tynnu sylw at arferion da ac yn dangos lle y gallai gwasanaethau ddysgu oddi wrth ei gilydd i wella profiadau mamau, babanod a theuluoedd ar draws y genedl.

Drwy edrych ar daith Mamolaeth a Newyddenedigol teuluoedd, gosododd yr Adroddiad Darganfod y sylfeini ar gyfer newidiadau pwysig yn y ffordd rydym yn ystyried gofal ac yn ei ddarparu yng Nghymru drwyddi draw. Mae'r gwaith hwn bellach yn rhan o'r weledigaeth gyffredinol ar gyfer gwasanaethau Mamolaeth a Newyddenedigol o safon y gallwch ddarllen amdanynt yn y Datganiad Ansawdd a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Chwefror 2025.

Canolbwyntiodd cam nesaf y gwaith (gweithredu) ar ddefnyddio canfyddiadau'r Adroddiad Darganfod i gyflawni gwelliannau, megis nodi'r arwyddion yn gynnar bod mam neu faban yn mynd yn sâl, lleihau achosion o wahanu mamau a'u babanod, a gwella diogelwch trwy addysg a defnyddio pecynnau cymorth.

Roedd y cyflawniadau allweddol yn cynnwys:

• Cefnogi Byrddau Iechyd i baratoi ar gyfer defnyddio'r Sgorau Rhybudd Cynnar newydd, sef offer sy'n helpu gweithwyr gofal iechyd proffesiynol i weld pwy allai fod yn mynd yn sâl. Roedd gan yr hyrwyddwyr diogelwch lleol ran bwysig i'w chwarae wrth gynnwys grwpiau allweddol eraill, datblygu a chyflwyno hyfforddiant ar gyfer Sgôr Rhybudd Cynnar Mamolaeth (MEWS) ac Offeryn Olrhain a Sbarduno Rhybudd Cynnar Newyddenedigol 2 (NEWTT2).

• Cyflwyno 'Tîm y Sifft' ar draws Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Ambiwlans Cymru (WAST). Helpodd y fenter hon gan Goleg Brenhinol y Gynaecolegwyr y dull o weithio mewn tîm, creu amgylcheddau gwaith diogel, a helpu timau i godi materion diogelwch.

- Datblygu Asesiad Risg Newyddenedigol a fydd yn cael ei ddefnyddio ledled Cymru i adnabod babanod y gallai fod angen eu monitro'n agosach.
- Helpu Byrddau Iechyd i ddefnyddio system ATAIN (Osgoi Derbyniadau Cyfnod Llawn i Unedau Newyddenedigol) gyda'r nod o gadw mamau a babanod gyda'i gilydd.

- Gwaith monitro tymheredd y corff yn Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Ambiwlans Cymru. Roedd hwn yn brosiect llwyddiannus ar gyfer cadw tymheredd corff baban newydd-anedig o fewn yr ystod arferol tra dan ofal Gwasanaeth Ambiwlans Cymru. Dyfarnwyd Gwobr Gofal Diogel GIG Cymru i'r prosiect yng Ngwobrau GIG Cymru 2024.

Beth ddigwyddodd nesaf

Mae'r gwaith a ddechreuodd yn ystod y cyfnod darganfod wedi symud ymlaen i'r cyfnod gwella, ac mae tîm y rhaglen yn gweithio'n galed i wella gofal Mamolaeth a Newyddenedigol ledled Cymru i ddarparu gwasanaethau mwy diogel, mwy effeithiol a chyfartal i fenywod, babanod a'u teuluoedd. Bellach mae Rhwydwaith Gweithredu wedi'i sefydlu i arwain y rhaglen.

Mae'r rhaglen yn canolbwyntio ar wneud pethau'n well drwy ddod â thimau lleol y GIG ynghyd i rannu profiadau a dysgu gwneud newidiadau cadarnhaol, parhaol. Mae rhai themâu allweddol, fel sut i adnabod yn fuan pan fydd menyw neu faban yn mynd yn sâl, gwell mynediad at Ofal Mamolaeth brys, a chreu diwylliant lle mae diogelwch a llesiant yn dod gyntaf bob amser.
Mae'r rhaglen wedi gweithio'n galed i gynhyrchu cynllun sy'n llywio'r gwaith hyd at y flwyddyn nesaf a bydd yn helpu gwasanaethau ledled Cymru i gydweithio i ddarparu gofal o ansawdd uchel gan roi menywod, babanod a theuluoedd wrth wraidd y gwaith (insert link).

Mae'r amserlen ar y dudalen nesaf yn dangos sut mae'r gwaith i wella gwasanaethau Mamolaeth a Newyddenedigol yng Nghymru wedi datblygu dros amser. Dechreuodd gyda Gwelliant Cymru, a helpodd i roi cychwyn ar y Rhaglen yn 2022. Mae Rhwydwaith Gweithredu'r Rhaglen Cefnogi Diogelwch mewn Gofal Mamolaeth a Newyddenedigol (MNSSPIN) bellach yn arwain y gwaith, yn adeiladu ar yr hyn a ddysgwyd hyd yn hyn ac yn cefnogi timau ledled Cymru i wneud gofal yn fwy diogel ac yn well i deuluoedd.

Maternity and Neonatal Safety Support Programme Llinell Amser

December 2022- May 2025

Rhagfyr 2022: Cyfnod Darganfod



Edrychodd rhan gyntaf y Rhaglen Cefnogi Diogelwch mewn Gofal Mamolaeth a Newyddenedigol (MatNeoSSP), a elwir y 'Cyfnod Darganfod', ar sut roedd pethau'n gweithio mewn gwasanaethau Mamolaeth a Newyddenedigol ledled y wlad. Helpodd i weld beth oedd yn mynd yn dda a lle gellid gwella pethau. Roedd hyn yn galluogi timau i ddysgu oddi wrth ei gilydd a rhannu syniadau da.

Gorffennaf 2023: Adroddiad Cyfnod Darganfod




Rhannwyd yr holl bethau a ddysgwyd yn y cyfnod cyntaf yn yr Adroddiad Cyfnod Darganfod, a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2023. Roedd yr adroddiad yn rhannu blaenoriaethau ar gyfer lle y gellid gwneud gwelliannau.

Awst 2023: Cyfnod Pontio




Dechreuwyd ar rywfaint o waith gwella gan ddefnyddio'r holl bethau a ddysgwyd o'r Adroddiad Cyfnod Darganfod. Roedd y gwelliannau'n cynnwys ei gwneud hi'n haws gweld pryd y gallai menyw a baban fod yn mynd yn sâl. Gwnaeth Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Ambiwlans Cymru waith hefyd i wella'r gofal pan fydd baban yn cael ei eni gartref yn annisgwyl.

Ebrill 2024: Arweinyddiaeth y Rhwydwaith



Ym mis Ebrill 2024, cymerodd y Rhwydwaith Mamolaeth a Newyddenedigol yr arweinyddiaeth ar MatNeoSSP a gweithiodd i ddeall beth sydd wedi'i wneud hyd yn hyn a pha brosiectau newydd y gellid rhoi cychwyn arnynt. Cafodd Rhwydwaith Gweithredu MatNeoSSP ei sefydlu i arwain y rhaglen.

Ebrill 2025: Cyfnod y Rhaglen Gwella 2



Ym mis Ebrill 2025, symudodd y rhaglen i'w chyfnod nesaf. Mae'r cyfnod hwn yn golygu bod y Rhwydwaith Gweithredu yn gweithio gyda thimau'r Byrddau Iechyd a chydweithwyr eraill i gyflawni saith blaenoriaeth allweddol.

Y Cyfnod Gweithredu: Meysydd Gwaith

Mae Rhwydwaith Gweithredu MatNeoSSP wedi datblygu cynllun neu ganllaw sy'n nodi sut y byddwn yn cyflawni'r gwelliannau hyn mewn gofal Mamolaeth a Newyddenedigol. Mae'r cynllun hwn yn dwyn blaenoriaethau'r rhaglen ynghyd ac fe'i cynlluniwyd gyda'n cydweithwyr i arwain Byrddau Iechyd a phartneriaid drwy sicrhau ein bod i gyd yn gweithio tuag at yr un nod o ddarparu gofal mamolaeth a newyddenedigol mwy diogel a mwy effeithiol. Mae ein gwaith yn cwmpasu naw maes penodol:

Addysg a Hyfforddiant ar gyfer y Gweithlu

Sicrhau bod staff Mamolaeth a Newyddenedigol ledled Cymru wedi'u hyfforddi'n dda, eu bod yn cael cefnogaeth, a bod ganddynt yr hyn sydd ei angen arnynt i roi gofal diogel. Gellir rhoi rhai camau gweithredu ar waith yn gyflym, tra bydd angen cynllunio gofalus ar eraill, ond rhennir yr un nod cyffredinol o sicrhau bod y staff iawn yn y lle iawn i roi'r gofal gorau posibl i deuluoedd.

Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant (CAC)

Sicrhau bod gwasanaethau Mamolaeth a Newyddenedigol yn deg a chynhwysol i bob menyw, baban a theulu, beth bynnag fo'u cefndir neu eu hamgylchiadau. Mae Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant wedi'i blethu i waith y rhaglen gyfan, ac mae'n canolbwyntio ar helpu Byrddau Iechyd i wella'r cyfathrebu a'r gefnogaeth i unrhyw un a allai wynebu rhwystrau rhag cael mynediad at ofal, fel bod pawb yn derbyn gofal diogel, llawn parch a phersonol.

Optimeiddio Amenedigol a Gofal Newyddenedigol

Ei nod yw gwella'r gofal i fabanod newydd-anedig, yn enwedig y rhai sy'n cael eu geni'n gynnar neu sydd angen cymorth ychwanegol. Rydym yn canolbwyntio ar sicrhau fod babanod yn derbyn y gofal iawn o'u genedigaeth, yn aros yn agos at eu teuluoedd pan fo'n bosibl ac yn cael y dechrau gorau mewn bywyd drwy well gwasanaethau, cynllunio a thrafnidiaeth ledled Cymru.

Cydnabod ac Uwchgyfeirio Dirywiad

Mae'n sicrhau bod problemau beichiogrwydd brys yn cael eu canfod a'u trin yn fuan er mwyn cadw menywod a babanod yn ddiogel. Mae ein gwaith yn cynnwys cyflwyno cyngor clir i staff gofal iechyd a gwasanaethau brys drwy roi gwybodaeth syml iddynt fel y gallant nodi'n fuan pwy sydd angen cymorth brys. Mae hyn yn cael ei ddatblygu ar y cyd â Grŵp Dysgu Cenedlaethol fel y gall timau ledled Cymru ddysgu a gwella gyda'i gilydd.

Optimeiddio Iechyd Mamolaeth



Yn canolbwyntio ar wella iechyd a lles menywod yn ystod ac ar ôl beichiogrwydd, gyda'r nod o sicrhau bod pob menyw yng Nghymru yn derbyn y wybodaeth a'r gefnogaeth gywir ar gyfer iechyd corfforol a meddyliol.

Rheoli Ansawdd a Gwella

Mae’n canolbwyntio ar wneud gofal yn fwy diogel ac yn well i famau a'u babanod, ac mae’n helpu timau i ddysgu o brofiadau, i wrando ar deuluoedd a thrwy ddefnyddio data i wella gwasanaethau



Lleihau Marw-enedigaethau a Gwella Gofal Profedigaeth



Mae’n anelu at leihau achosion o farw-enedigaethau a rhoi gofal gwell i deuluoedd sydd wedi colli baban. Rydym yn canolbwyntio ar sut y gall archwiliadau rheolaidd, clinigau arbenigol, cefnogaeth sensitif ac unigol i deuluoedd, a sefydlu gwasanaethau newydd fel Clinigau Enfys helpu teuluoedd â beichiogrwydd yn y dyfodol. Mae'r Rhwydwaith Mamolaeth a Newyddenedigol yn gweithio mewn partneriaeth â Sands i ddatblygu a gweithredu'r Llwybr Gofal Profedigaeth Cenedlaethol ar draws Cymru ar gyfer Beichiogrwydd a Cholli Baban. Bydd y gwaith pwysig hwn yn cyflwyno pum llwybr gofal profedigaeth, wedi'u cynllunio i gefnogi gweithwyr gofal iechyd proffesiynol i ddarparu gofal tosturiol o ansawdd uchel i rieni a theuluoedd sy'n profi colli beichiogrwydd neu farwolaeth baban.

Gofal sy'n Canolbwyntio ar y Teulu a Chefnogi Dewis

Mae’n anelu at sicrhau bod gofal mamolaeth a newyddenedigol yn canolbwyntio ar deuluoedd a'u hanghenion. Byddwn yn gweithio i gefnogi menywod a theuluoedd i wneud penderfyniadau sy'n iawn iddynt hwy a'u babanod, er mwyn gwella eu profiad o wasanaethau Mamolaeth a Newyddenedigol. Mae hyn yn cysylltu â’r Fframwaith Ymgysylltu Amenedigol




Arweinyddiaeth a Diwylliant



Mae’n anelu at wella gofal Mamolaeth a Newyddenedigol drwy adeiladu arweinyddiaeth gref, gwaith tîm da a chanolbwyntio ar lesiant. Mae Byrddau Iechyd yn arwain y gwaith hwn gyda chefnogaeth gennym ni, sy'n helpu i rannu syniadau ac annog cynnydd ar draws Cymru.


Adeiladu Tîm Gwella MatNeoSSP




Er mwyn ein helpu i gyflawni'r gwaith hwn, rydym wedi croesawu Arweinydd Clinigol ar y Rhwydwaith Gweithredu MatNeoSSP sy'n dod ag arbenigedd ac arweinyddiaeth i'r rhaglen.

Mae camau cyffrous ar droed ym mhob Bwrdd Iechyd ar hyd a lled Cymru i recriwtio arbenigwyr i rolau newydd gan gynnwys:

- Arbenigwyr Gwella Mamolaeth Lleol
- Arbenigwyr Gwella Newyddenedigol Lleol
- Arweinwyr Gwella Amenedigol Lleol





Cytunwyd ar y swyddi newydd hyn ledled y wlad a byddant yn ein helpu i weithio fel un tîm ar draws Cymru.

7 Blaenoriaethau Allweddol ar gyfer Ebrill 2025-Mawrth 2026 a beth mae hyn yn ei olygu i Wasanaethau Mamolaeth a Newyddenedigol

Fel rhan o'n hymrwymiad parhaus i ofal Mamolaeth a Newyddenedigol mwy diogel a theg ledled Cymru, mae MatNeoSSP wedi gosod blaenoriaethau clir ar gyfer y flwyddyn nesaf. Nodwyd y blaenoriaethau hyn drwy Adroddiad Darganfod Gwella Gyda'n Gilydd dros Gymru a byddant yn cael eu holrhain a'u cyflawni erbyn mis Ebrill 2026. Mae crynodeb o'r rhain isod

Beth rydyn ni'n ei wneud	Beth mae hyn yn ei olygu o ran gofal
Monitro rhaglenni. Rydym wedi sefydlu grŵp cenedlaethol i oruchwylio ac olrhain cynnydd ar bob prosiect gwella.Bydd pob Bwrdd Iechyd hefyd yn defnyddio offer lleol i sicrhau bod gwelliannau'n cael eu holrhain yn barhaus.	Bydd yn helpu i sicrhau bod newidiadau'n digwydd mewn gwirionedd ac yn gwneud gofal yn fwy diogel i famau, babanod a theuluoedd ledled Cymru.
Mynediad Gwell at Ofal. Rydym yn gweithio gyda Byrddau Iechyd i wella sut y gall menywod, yn enwedig y rhai a allai wynebu rhwystrau, gael gwell mynediad at Ofal Mamolaeth. Mae hyn yn cynnwys cyfathrebu cliriach a mynediad cyflymach at gyngor a chymorth	Bydd yn haws cael y gofal iawn ar yr amser iawn, ni waeth pwy ydych chi na ble rydych chi'n byw.
Cymorth ar gyfer Problemau sy'n Gysylltiedig â Beichiogrwydd. Ar hyn o bryd rydym yn gweithio ar brosiect a gynlluniwyd i wella Gofal Mamolaeth brys ac mae grŵp cenedlaethol yn cydweithio i wella sut y gellir adnabod menywod sydd angen cymorth brys yn fwy buan.	Os ydych chi'n feichiog ac yn profi symptomau corfforol annisgwyl, gallwch gael help pan fydd ei angen arnoch chi. Mae tîm yng Nghymru wrthi'n gweithio ar wella sut mae'n nodi pryd y mae angen gofal brys a sicrhau eich bod yn cael y gefnogaeth sydd ei hangen arnoch yn gynt.


Beth rydyn ni'n ei wneud	Beth mae hyn yn ei olygu o ran gofal
Canfod a Gweithredu ar Arwyddion Rhybudd Cynnar. Mae Siartiau Rhybudd Cynnar cenedlaethol newydd yn cael eu cyflwyno i helpu timau gofal iechyd i nodi'n fuan pryd y gallai iechyd menyw neu faban fod yn gwaethygu. Bydd yr offeryn hwn yn cael ei ddefnyddio mewn gwasanaethau Mamolaeth a Newyddenedigol ledled Cymru.	Os yw menyw feichiog, rhywun sydd wedi rhoi genedigaeth yn ddiweddar neu faban yn mynd yn sâl, bydd y siart newydd yn helpu i weld hyn a gweithredu arno'n fuan. Bydd hefyd yn helpu menyw neu deulu i fynegi pryder os byddant yn teimlo'n sâl yn gorfforol.
Helpu menywod i aros yn iach yn ystod beichiogrwydd, ac wedi hynny. Rydym yn cydweithio gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru i gefnogi rhaglenni sy'n helpu menywod i aros yn iach cyn beichiogrwydd, yn ystod beichiogrwydd ac wedi hynny.	Rydym yn rhoi cymorth a gwybodaeth well i ofalu am eich iechyd a'ch llesiant cyn, yn ystod ac ar ôl beichiogrwydd.
Gwybodaeth Well ar ôl Geni. Rydym yn edrych ar ffyrdd o wella'r wybodaeth sydd ar gael i fenywod sydd wedi profi cymhlethdodau fel diabetes neu bwysedd gwaed uchel yn ystod beichiogrwydd, a sut y gallwn eu cefnogi i reoli risgiau iechyd yn y dyfodol.	Os cawsoch gymhlethdodau fel diabetes neu bwysedd gwaed uchel yn ystod beichiogrwydd, byddwch yn derbyn gwell gwybodaeth a chefnogaeth ar ôl i'ch baban gael ei eni. Bydd hyn yn eich helpu i ddeall risgiau iechyd a gwybod sut i'w lleihau yn y dyfodol.
Geni yn y lle iawn. Drwy rannu'r hyn a ddysgwyd ac arferion gorau ledled Cymru, rydym yn cefnogi gwelliannau i sicrhau fod babanod a allai fod angen cymorth ychwanegol adeg eu genedigaeth yn cael eu geni yn y lle gorau posibl ar gyfer eu gofal.	Os bydd angen gofal ychwanegol ar eich baban adeg ei enedigaeth, rydym yn gweithio i sicrhau eich bod yn rhoi genedigaeth yn y lle gorau ar gyfer y gofal hwnnw, a bydd y tîm cywir yn barod i helpu. Drwy rannu'r hyn sy'n gweithio'n dda ledled Cymru, rydym yn helpu pob baban i gael y gofal iawn ar yr amser iawn.

Sut fyddwn ni'n cadw golwg ar gynnydd?



Sefydlwyd y Grŵp Goruchwylio Rhwydwaith Gweithredu (INOG) i oruchwylio gwaith ein rhaglen a chadw ein gwaith ar y trywydd iawn. Bydd y grŵp yn cyfarfod bob yn ail fis i adolygu cynnydd y rhaglen.

Yn y cyfarfod cyntaf ym mis Chwefror 2025, cytunwyd sut y byddai'r rhaglen yn cael ei rheoli a sut y byddem yn adrodd ar ein cynnydd. Yn yr wythnosau dilynol, cafodd dogfennau pwysig eu cwblhau a'u cymeradwyo.





Yn yr ail gyfarfod ar 20 Mai 2025, rhannodd Byrddau Iechyd a thimau eraill eu diweddariadau i'n helpu i greu darlun clir o sut y mae gwaith pawb yn mynd rhagddo ledled Cymru.

GIG CYMRU NHS WALES

Perfformiad a Gwella

Performance and Improvement